



Gwasanaethau Anabledd



Mae'r daflen ar gael mewn gwahanol fformatau

A oes gennych nam, cyflwr iechyd corfforol neu feddyliol hirdymor, gwahaniaeth dysgu penodol fel dyslecsia neu ydych chi'n gwella o salwch neu anaf difrifol?

Dyma rai o'r pethau y gallem eu cynnig i chi:

- Darparu gwybodaeth am wasanaethau a chefnogaeth.
- Rhoi cyngor ar strategaethau i hwyluso astudio a thasgau bob dydd.
- Helpu gyda threfnu addasiadau ar gyfer arholiad.
- Trefnu darpariaeth a chefnogaeth llyfrgell ychwanegol.
- Datblygu Cynllun Cefnogi Dysgu Personol (CCDP) sy'n nodi addasiadau rhesymol.
- Cadw mewn cysylltiad trwy gyfarfodydd, negeseuon e-bost a newyddlenni.
- Cydweithio'n agos gyda Thiwtor Anabledd eich ysgol academiaidd.
- Benthycu cyfarpar, er enghraifft: recordwyr digidol (lle maent ar gael).
- Trefnu mynediad i ystafelloedd technoleg gynorthwyol gyda chyfrifiaduron a meddalwedd technoleg gynorthwyol.
- Trefnu i ymgysgu i ddwy llwybrau / hyfforddiant symudedd.
- Trefnu sgrinio anffurfiol ar gyfer dyslecsia a / neu wahaniaeth dysgu penodol arall fel dyspraxia.
- Cyngor ar sut i gael asesiad diagnostig.

- Cynnig cefnogaeth sgiliau astudio un i un a strategaeth arbenigol.
- Eich helpu i wneud cais am Lwfans Myfyrwyr Anabl (LMA).

Cyllid ychwanegol: Lwfans Myfyrwyr Anabl - Ar gyfer pwy?

Peidiwch â gadael i'r enw eich rhwystro! Mae Lwfansau Myfyrwyr Anabl (LMA) yn helpu i dalu'r costau ychwanegol y gall myfyrwyr eu hwynebu wrth astudio o ganlyniad i anabledd, sy'n cynnwys wynebu rhwystrau o ganlyniad i fod â nam, cyflyrau iechyd corfforol neu feddyliol parhaus, gwahaniaeth dysgu penodol fel dyslecsia neu fod ar y sbectwm awtistiaeth. Mae'r LMA ar gael yn ychwanegol at eich benthyciadau neu grantiau cyllid myfyrwyr eraill ac nid oes angen ei ad-dalu.

Cyfrinachedd

Mae pob trafodaeth yn gyfrinachol ac ni wnawn rannu gwybodaeth oni bai bod rhywun yn y brifysgol angen gwybod, pan fydd hynny'n briodol a chyda'ch caniatâd chi.

Trefnu apwyntiad:

Ffoniwch 01248 383620 / 382032 neu anfonwch e-bost i gwasaethanabledd@bangor.ac.uk i drefnu apwyntiad gydag un o'r cynghorwyr. Rydym yng Nghanolfan Gwasanaethau Myfyrwyr yn Neuadd Rathbone. Mae ein swyddfeydd yn agored o 9.00 a.m. tan 5.00 p.m. Llun i Ddydd Gwener.